Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**





# Meithrinfa Ddydd Pili-Pala

Dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth ddechrau yn yr ysgol

## Cefndir

Mae Meithrinfa Ddydd Pili-Pala ym Merthyr Tudful wedi bod yn gweithredu ers 26 o flynyddoedd ac yn gofalu am 148 o blant â thîm o 23 o staff profiadol.
Cydnabu'r feithrinfa fod angen cymorth wedi'i deilwra'n fwy penodol ar lawer o blant, yn enwedig plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), wrth symud o'r feithrinfa i'r ysgol. Heb hyn, gall rhai plant gael eu llethu gan eu hamgylchedd newydd.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Mewn ymateb, mae'r feithrinfa wedi datblygu proses bontio sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n mynd y tu hwnt i'r ymarfer safonol. Mae hyn yn cynnwys:

- y staff yn cyfarfod â'r rhieni i greu cynlluniau gweithredu wedi'u personoli i bob plentyn
- rhannu gwaith papur sy'n ymwneud â'r cyfnod pontio a gwybodaeth asesu â'r ysgolion mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb
- staff yr ysgol yn ymweld â'r feithrinfa i arsylwi ar y plant, a staff y feithrinfa yn trefnu ymweliadau wedi'u teilwra â'r ysgol i helpu'r plant i deimlo'n gyfforddus
- staff y feithrinfa yn darparu cymorth un i un i blant ag ADY yn ystod sesiynau setlo yn yr ysgol
- staff yn cadw mewn cysylltiad ar ôl i'r plant ddechrau yn yr ysgol ac yn dychwelyd i gynnig cymorth os oes angen

Mae'r dull cyd-gysylltiedig hwn yn helpu'r plant i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, i setlo'n gyflymach, ac i ffynnu yn eu lleoliadau ysgol newydd.

## Effaith ...

- Mae'r plant, yn enwedig plant ag ADY, yn teimlo'n llai pryderus ac yn fwy hyderus
- Mae'r ysgolion yn deall anghenion y plant a strategaethau effeithiol o'r diwrnod cyntaf
- Mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn hyderus drwy drefniadau pontio graddol, wedi'u cefnogi
- Mae plant ag ADY yn llwyddo i aros mewn lleoliadau prif ffrwd lle y byddent o bosibl wedi'i chael hi'n anodd fel arall
- Mae'r rhieni yn cael tawelwch meddwl o wybod bod eu plentyn yn cael cymorth wedi'i bersonoli wrth ymdopi â'r newid mawr hwn

> *"Gall dechrau yn yr ysgol fod yn heriol i rai plant, ond mae eu gweld nhw'n setlo, yn enwedig y rhai a fyddai o bosibl wedi'i chael hi'n anodd, yn golygu bod yr holl waith cynllunio yn werth chweil."*